Cyfarfod Cyffredinol 2013 - cynigion fel y pasiwyd

Cyfethol Swyddog Tai

Cyfarwydda'r Cyfarfod Cyffredinol y Grŵp Cymunedau Cynaliadwy i gyfethol Swyddog Tai a all edrych yn benodol ar bolisïau tai, economi a'r Gymraeg yn fanwl.

Cynigydd: Josh Parry
Eilydd: Carl Morris a Rebecca Parry

Ad-drefnu Llywodraeth Leol

Noda'r Cyfarfod Cyffredinol waith Comisiwn Gwasanaethau Cyhoeddus Llywodraeth Cymru a'r ystyriaeth y maent yn ei rhoi i ad-drefnu llywodraeth leol.

Galwn ar i Lywodraeth Cymru roi ystyriaeth fanwl i effaith ieithyddol unrhyw newidiadau gan sicrhau bod ehangu ar nifer y cyrff sydd yn gweinyddu'n fewnol trwy gyfrwng y Gymraeg.

Ymhellach, cytunwn y dylid grymuso cymunedau i allu rheoli eu bywydau hwy eu hunain, gan gefnogi datganoli rhagor o rymoedd i gynghorau cymuned megis rheolaeth dros y broses gynllunio.

Cynigydd: Senedd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg

Aelodaeth y Senedd

Caniatâ'r Cyfarfod Cyffredinol i Senedd y Gymdeithas lenwi unrhyw swydd Senedd wag drwy gyfethol. Yn ogystal, dylid caniatau i'r Senedd gyfethol hyd at dri aelod heb bortffolio bob blwyddyn.

Penderfyna'r Cyfarfod Cyffredinol y dylid symud y Swyddog Aelodaeth i fod yn aelod o Senedd y Gymdeithas, yn hytrach nag yn aelod o Gyngor y Gymdeithas yn unig.

Cynigydd: Senedd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg

Trefniadau Etholiadau'r Senedd

Penderfyna'r Cyfarfod Cyffredinol y dylai aelodau Senedd a Chyngor y Gymdeithas gael eu hethol gan y Cyfarfod Cyffredinol. Bydd pleidlais gudd yn ystod y cyfarfod, gyda phleidleisiau o bell ar gael ar gais i aelodau na allant fod yn bresenol yn y cyfarfod.

Cynigydd: Senedd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg

Mynychu Rhagor o Wyliau

Noda'r Cyfarfod Cyffredinol y budd sydd o fynychu gwyliau megis Gŵyl y Dyn Gwyrdd, ac, ymhellach, cytunwn y dylai rhanbarthau edrych i gael presenoldeb mewn gwyliau a digwyddiadau perthnasol yn y gwahanol ranbarthau, heb gyfyngu i ddigwyddiadau traddodiadol Gymraeg.

Felly, cyfarwydda'r Cyfarfod Cyffredinol y rhanbarthau, wrth benderfynu mynychu gwyliau, i osod targed ac amcanion clir fel bod modd gwerthuso wedyn budd mynd i'r digwyddiad yn y dyfodol.

Cynigydd: Josh Parry
Eilyddion: Carl Morris a Rebecca Parry

Creu Grŵp Pobl Ifanc

Cytuna'r Cyfarfod Cyffredinol i sefydlu grŵp ar gyfer pobl ifanc rhwng 16 a 30 mlwydd oed er mwyn creu polisïau a fydd yn ymateb i gwestiynau penodol sydd yn effeithio ar bobl ifanc megis y rhai sydd yn gadael ysgol heb fedru'r Gymraeg neu'n ei hanghofio.

Cynigydd: Josh Parry
Eilyddion: Carl Morris a Rebecca Parry

Disgrifiad amgen o'n celloedd

Noda'r Cyfarfod Cyffredinol fod gan y gair 'cell' cysylltiadau anffodus iawn ym meddwl rhai o'r cyhoedd, yn enwedig mewn ardaloedd llai traddodiadol Cymraeg eu hiaith ac ymysg pobl llai cyfarwydd gyda natur heddychlon y Gymdeithas.

Er mwyn sicrhau bod y mudiad mor effeithiol â phosib yn enwedig ymysg grwpiau sydd yn llai ymwybodol o hanes y Gymdeithas, caniata'r Cyfarfod Cyffredinol i gelloedd y Gymdeithas yn rhai ardaloedd ddefnyddio disgrifiad amgen eu hunain.

Ymhellach, cyfarwydda'r Cyfarfod Cyffredinol y grwp cyfathrebu i ystyried ffyrdd amgen i ddisgrifio ein celloedd.

Cynigydd: Steve Blundell
Eilydd: Barry Taylor

Tuag at Gymru Dairieithog

Bydd Cymdeithas yr Iaith yn ymgyrchu i sicrhau na chaiff unrhyw ddisgybl ei amddifadu o'r sgil addysgol hanfodol o fedru cyfathrebu a gweithio'n Gymraeg. I'r perwyl hwn:

(1) Galwn am gamau brys tuag at sicrhau fod pob disgybl yn derbyn o leiaf beth o'i addysg trwy

gyfrwng y Gymraeg;

(2) Credwn y dylai'r datblygiad hwn fod yn rhan o symudiad tuag at greu Cymru dairieithog addas i'r 21ain ganrif;

(3) Yn gyfamserol, galwn ar Awdurdodau Lleol i sicrhau bod rhwydwaith o ysgolion cyfrwng Cymraeg mewn ardaloedd le nad yw addysg Gymraeg yn norm. Yn lle canoli darpariaeth addysg Gymraeg, dylid sicrhau ysgolion Cymraeg ym mhob cymuned a chondemniwn Gyngor Caerdydd yn arbennig am eu methiant yn y cyswllt hwn.

Cynigydd: Grŵp Ymgyrch Addysg

Gwrthwynebiad i Reolaeth Canolog ar Wasanaethau Lleol

Mae Cymdeithas yr Iaith yn condemnio ymdrechion cynyddol Llywodraeth Cymru i reoli'n fanwl y ddarpariaeth o wasanaethau yn ein cymunedau lleol trwy osod amodau mor gaeth i ryddhau cyllid cyfalaf fel nad oes dim dewis gan Gynghorau Lleol o ran sut i drefnu gwasanaethau lleol i gynnal ein cymunedau Cymraeg. Cyfeiriwn at enghreifftiau y Parc a Charmel yng Ngwynedd lle mae Llywodraeth ganolog yn mynnu (neu wedi mynnu) cau ysgolion sy'n sylfaen i'w cymunedau fel amod i ryddhau cyfalaf ar gyfer adeiladau newydd mewn mannau canolog, ac at enghraifft Llanddewi Brefi yng Ngheredigion.

Nodwn fod perygl real y gall yr adolygiad cyfredol o gyflwyniant a rheolaeth gwasanaethau arwain at fwy o ficro-reoli o'r fath o Fae Caerdydd, gan danseilio cymunedau lleol a'u gallu i oroesi fel cymunedau Cymraeg. Galwn ar y Prif Weinidog i gyfarwyddo'r Comisiwn sy'n cynnal yr adolygiad i chwilio am ffyrdd o gryfhau, yn hytrach na thanseilio, democratiaeth leol.

Os bydd unrhyw symudiad tuag at greu Awdurdodau Lleol mwy o faint - boed hynny yn ffurfiol neu'n ddirgel trwy Gonsortia ac ymyrraeth o'r canol - mynnwn fod symudiad cyfamserol i gryfhau statws a grymoedd Cynghorau Tref a Chymuned er mwyn sicrhau cydbwysedd.

Cynigydd: Senedd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg

Canlyniadau'r Cyfrifiad: ymgyrch weithredol uniongyrchol yn erbyn Llywodraeth Cymru

Noda'r Cyfarfod Cyffredinol y gwaith lobïo a'r camau cyfansoddiadol helaeth, cynhwysfawr a thraws-bleidiol a wnaed gan y grŵp Cymunedau Cynaliadwy mewn ymateb i ganlyniadau'r Cyfrifiaid fis Rhagfyr y llynedd.

Croesawn gynnwys ein Maniffesto Byw a fabwysiadwyd yn ei ffurf diweddaraf ym mis Mehefin eleni. Credwn mai dim ond trwy weithredu ar yr ystod eang o ofynion yn y Maniffesto Byw y gallwn leihau'r dirywiad yn nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg yn ein cymunedau.

Er ein bod yn nodi llwyddiannau grŵp Cymunedau Cynaliadwy'r Gymdeithas, credwn nad yw'r Prif Weinidog na Llywodraeth Cymru wedi ymateb yn ddigonol er mwyn sicrhau bod y Gymraeg yn tyfu dros y blynyddoedd i ddod.

Ymhellach, cytuna'r Cyfarfod Cyffredinol â'r llythyr a ddanfonwyd gan ein Cadeirydd yn datgan ein bwriad i gynnal ymgyrch weithredol uniongyrchol ddi-drais o'r 1af Chwefror 2014 ymlaen oni cheir datganiad clir gan y Prif Weinidog ei fod yn bwriadu gweithredu o ddifrif ar y chwe phwynt canlynol: Addysg Gymraeg i bawb; Tegwch ariannol i'r Gymraeg; Gweithredu'n fewnol trwy gyfrwng y Gymraeg; Safonau Iaith i Greu Hawliau Clir; System Gynllunio Newydd gan gynnwys cyhoeddi fersiwn newydd o Nodyn Cyngor Technegol 20 (TAN 20), a sicrhau ei fod mor gryf â phosib; a gwneud y Gymraeg yn rhan o ddiffiniad statudol Datblygu Cynaliadwy.

Ymhellach, penderfynwn y dylid cynnal rali ar Ragfyr 14 gan dynnu sylw at y ffaith bod blwyddyn ers i ganlyniadau'r Cyfrifiad gael eu cyhoeddi er mwyn pwyso am weithredu pellach ar bolisiau a fydd yn sicrhau bod pawb yn cael byw yn Gymraeg.

Ymhellach, cytuna'r Cyfarfod Cyffredinol bod grwp Cymunedau Cynaliadwy Cymdeithas yr Iaith yn mynd rhagddi ar fyrder i sefydlu is-bwyllgor a fydd yn trefnu a llywio'r ymgyrch weithredol ddi-drais yn erbyn Llywodraeth Cymru, fel bod trefniadau penodol mewn lle erbyn Chwefror 1af.

Cynigydd: Grŵp Cymunedau Cynaliadwy

Torri ar Drafnidiaeth Gyhoeddus

Noda'r Cyfarfod Cyffredinol bod cyhoeddiad diweddar Arriva i ddod a gwasanaethau i ben yng ngorllewin Cymru yn destun siom a phryder. Ymhellach nodwn ein cydymdeimlad gyda'r gweithwyr sydd yn bryderus am eu swyddi yn dilyn y cyhoeddiad.

Noda'r Cyfarfod Cyffredinol bod gwasanaeth trafnidiaeth gyhoeddus yn greiddiol i barhad cymunedau Cymraeg cynaliadwy yng nghefn gwlad drwy ddarparu swyddi a chyfleoedd gwaith a hamdden. Ymhellach, noda bod cyhoeddiad Arriva yn fygythiad sylweddol i allu pobl ifanc i fyw a gweithio yn eu cymunedau o Sir Gar i Feirionnydd.

Galw'r Cyfarfod Cyffredinol ar Arriva i ail-feddwl a sicrhau na fydd colledion swyddi yn dilyn y cyhoeddiad hwn.

Galwn ar Lywodraeth Cymru a chynghorau Sir Ceredigion, Sir Gar, Gwynedd, Dinbych a Wrecsam i gydweithio ar frys gyda chwmnïau bws lleol, a dod o hyd i ffynonellau ariannol i gyfrannu at sicrhau bod y gwasanaethau hanfodol yma yn parhau.

Galwn ymhellach ar bobl mewn ardaloedd ble mae gwasanaethau tan fygythiad i dynnu sylw cynghorwyr cymuned a sir a'u Haelod Cynulliad; a chwmni Arriva o'r anhawster fyddai yn eu wynebu o golli'r gwasanaethau hyn.

Cyfarwydda'r Cyfarfod Cyffredinol y rhanbarthau a grwpiau ymgyrch perthnasol o fewn i Gymdeithas yr Iaith i gydweithio gyda grwpiau lleol i gydlynu a hwyluso'r gwaith o bwysleisio'r anawsterau i'r awdurdodau hynny.

Cynigydd: Hywel Griffiths
Eilydd: Tamsin Davies